Y Bwrdd Taliadau
**Papur tystiolaeth**

# Colli swydd a chymorth pontio:
Cymhariaeth seneddol

Ionawr 2024

## Mae'r papur hwn yn ystyried gwahanol ddulliau o gefnogi Aelodau wrth iddynt adael swydd seneddol, gan dynnu ar dystiolaeth o bob rhan o'r DU ac yn rhyngwladol.

Lluniwyd y papur hwn i gefnogi gwaith y Bwrdd Taliadau Annibynnol, yn benodol yr adolygiad thematig o Daliadau Ariannol a Chymorth Personol yr Aelodau.

Mae llawer o ddeddfwrfeydd yn cynnig cymorth ariannol i aelodau pan fyddant yn gadael eu swydd, ond gall natur a maint y cymorth hwn amrywio'n sylweddol. Mae gwaith ymchwil presennol ynghylch gadael swydd yn nodi y gall cyn-aelodau wynebu nifer o heriau o ran dod o hyd i waith, yn ogystal â phrofi ymdeimlad dwfn o golled, gan effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant.

Er na all y papur hwn roi barn ar y ffordd "gywir" o gefnogi aelodau sy'n gadael, mae'r seneddau cymharol yn cynnig syniadau gwerthfawr ynghylch natur a model y cymorth y gallai fod ei angen ar seneddwyr sy'n gadael.

# Cynnwys

**1. Crynodeb Gweithredol ... 4**

Pwy sy'n gymwys ... 4

Math o daliad ... 5

Gwerth taliadau ... 5

Taliadau i ddeiliaid swyddi ychwanegol ... 5

**2. Cyflwyniad ... 7**

Adolygiadau thematig ... 7

**3. Gadael swydd wleidyddol: gwaith ymchwil presennol ... 9**

*Smoothing the cliff edge: supporting MPs at their point of departure* (2023) ... 9

*Transitioning to Life after Parliament* (2021) ... 10

*Transitional Support for Former Members of Parliament: Benchmarks for 'Professional Parliaments'* (2023) ... 11

**4. Taliadau Colli Swydd: Deddfwrfeydd y DU ... 14**

Senedd Cymru ... 14

Senedd y DU ... 15

Senedd yr Alban ... 16

Cynulliad Gogledd Iwerddon ... 17

**5. Taliadau Colli Swydd: Enghreifftiau rhyngwladol ... 18**

Iwerddon ... 19

Victoria, Awstralia ... 20

Norwy ... 20

Denmarc ... 21

Sweden ... 22

Yr Almaen ... 22

Awstria ... 23

Canada – Tŷ'r Cyffredin ... 23

**6. Casgliad ....................................................................................26**

**7. Atodiad un: Cymhariaeth o ddeddfwrfeydd y DU.............................27**

**8. Atodiad dau: Darpariaethau costau dirwyn i ben yn neddfwrfeydd y DU 30**

Senedd Cymru .......................................................................................30

Senedd y DU..........................................................................................30

Senedd yr Alban.....................................................................................31

Cynulliad Gogledd Iwerddon ..................................................................31

Cipolwg ar gostau dirwyn i ben cymharol................................................32

**9. Atodiad tri: Esblygiad Grant Ymaddasu'r Senedd.............................33**

# 1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r cwestiwn o'r ffordd orau o gefnogi Aelodau sy'n gadael, o ystyried y cyd-destun unigryw y maent yn gweithredu ynddo, wedi cael sylw cynyddol. Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae nifer o adroddiadau, yn ogystal ag ystyried y cymorth ariannol y gallai fod ei angen ar Aelodau wrth adael eu swydd, wedi ystyried hefyd beth yw'r ffordd orau o gefnogi llesiant cyn-Aelodau a'u symud i gyflogaeth amgen. Mae'r adroddiadau hyn yn rhoi cyd-destun defnyddiol ar gyfer unrhyw gymhariaeth o ddulliau gwahanol seneddau ynghylch taliadau a chymorth colli swydd.

Rhywbeth i'w nodi'n arbennig yw argymhelliad Pwyllgor Gweinyddiaeth Tŷ'r Cyffredin yn ei adroddiad yn 2023, *Smoothing the cliff edge*, sef y dylai taliadau dirwyn i ben a cholli swydd adlewyrchu'n well yr amser y mae'n ei gymryd i ASau gau eu swyddfeydd a'u bod yn cael cymorth teg i'w cam gyrfa nesaf. Yn ogystal, nododd yr adroddiad fod angen trin hyn fel pecyn dileu swydd, ac felly na ddylid rhwymo taliad i gwblhau tasgau dirwyn i ben.[1]

Mae'n gyffredin ar draws llawer o ddeddfwrfeydd i Aelodau sy'n gadael eu swyddi gwleidyddol gael rhyw fath o gymorth ariannol, er bod natur a maint y cymorth hwn yn amrywio. Felly hefyd y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio'r taliadau hyn. Fodd bynnag, un gwahaniaeth allweddol yw rhwng taliadau seiliedig ar gyflog a roddir i Aelodau sy'n gadael, a ***chostau*** dirwyn i ben sy'n cael eu hawlio o gostau busnes neu lwfansau eraill y mae gan Aelodau hawl iddynt, e.e. costau staffio a swyddfa.

Wrth ystyried y cyntaf o'r rhain, sef taliadau a roddir i Aelodau pan fyddant yn gadael eu swydd, mae consensws bod rhyw fath o gymorth ariannol yn briodol, ond mae hyn yn wahanol mewn rhai ffyrdd sylfaenol ar draws y deddfwrfeydd a adolygwyd.

## Pwy sy'n gymwys

Mae rhai deddfwrfeydd ond yn rhoi cymorth ariannol i'r rhai sy'n sefyll etholiad ac nad ydynt yn cael eu hethol (e.e. Senedd Cymru). Fodd bynnag, mae'n fwy cyffredin i bob Aelod sy'n gadael gael cymorth. Mae rhai deddfwrfeydd yn cynnig taliad neu gynnydd ychwanegol i'r rhai sy'n gadael eu swydd yn annisgwyl ar ôl etholiad, e.e. Senedd y DU, lle mae'r holl Aelodau'n cael

[1] Pwyllgor Gweinyddiaeth Tŷ'r Cyffredin (2023) *Smoothing the cliff edge: supporting MPs at their point of departure from elected office*
**https://committees.parliament.uk/publications/33889/documents/185884/default/**

taliad dirwyn i ben, gyda thaliad colli swydd ychwanegol i'r rhai nad ydynt yn cael eu hailethol. Hefyd, roedd llawer o'r deddfwrfeydd a adolygwyd yn rhwymo hyd gwasanaeth wrth daliadau colli swydd, naill ai gyda gofyniad am isafswm hyd gwasanaeth i fod yn gymwys (blwyddyn yn aml), neu gynnwys hyd gwasanaeth wrth gyfrifo gwerth y taliad. Er enghraifft, yn Victoria, Awstralia, mae'r rhai sy'n gwasanaethu hyd at un tymor yn cael cyflog sylfaenol o dri mis, tra bod y rhai sy'n gwasanaethu dau dymor neu fwy yn cael cyflog sylfaenol o chwe mis.

## Math o daliad

Mae rhai deddfwrfeydd yn dewis un cyfandaliad i Aelodau sy'n gadael yn dilyn diddymu'r senedd neu'r etholiad, yn dibynnu ar sut mae Aelod yn gadael ei swydd. Mae eraill yn darparu taliad parhaus, y cyfeirir atynt yn aml fel "taliadau pontio". Yn aml, y nod datganedig i'r rhain yw cefnogi cyn-Aelodau i symud i fywyd ar ôl y senedd a'u cefnogi wrth iddynt sicrhau cyflogaeth amgen. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu lleihau dros amser, a byddant yn cael eu gwrthbwyso yn erbyn unrhyw incwm arall y mae cyn-Aelodau'n ei dderbyn.

Mae rhai deddfwrfeydd yn cyfuno'r ddau ddull hyn. Er enghraifft, yn Norwy, gall cyn-Aelodau gael tâl diswyddo sy'n hafal i gyflog o 3 mis, a hefyd lwfans terfynu am hyd at flwyddyn ar ôl diwedd y cyfnod diswyddo. Mae hyn er mwyn cefnogi cyn-Aelodau sydd wrthi'n chwilio am waith neu'n ymgymryd â hyfforddiant neu addysg sy'n gysylltiedig â gwaith, ac mae'n cyfateb i 66 y cant o gyflogau sylfaenol ASau. Mae'n cael ei leihau'n unol ag unrhyw incwm arall a enillir.

Mae rhai deddfwrfeydd hefyd yn rhoi'r dewis i Aelodau sy'n gadael naill ai i gael eu taliad mewn un cyfandaliad neu dros amser, e.e. yr Almaen.

## Gwerth taliadau

Mae gwerth taliadau colli swydd yn aml yn seiliedig ar gyflog sylfaenol Aelodau. Mae llawer o ddeddfwrfeydd yn cyfrifo taliadau colli swydd fel gwerth nifer benodol o fisoedd o gyflog sylfaenol. Mae hyn yn amrywio o dri i 24 mis, ond mae'n ymddangos mai tri i chwe mis sydd yn fwyaf cyffredin.

## Taliadau i ddeiliaid swyddi ychwanegol

Gall fod yn anodd dod o hyd i wybodaeth ar-lein am daliadau colli swydd i ddeiliaid swyddi ychwanegol. Yn aml, caiff darpariaethau ar gyfer y rolau hyn, yn enwedig rolau gweinidogol, eu pennu a'u gweinyddu gan wahanol gyrff i'r rhai sy'n pennu trefniadau taliadau ar gyfer seneddau. Ar draws deddfwrfeydd y DU, mae'n gymharol gyffredin i ddeiliaid swyddi ychwanegol gael taliadau colli swydd neu daliadau diswyddo, gyda Chynulliad Gogledd Iwerddon yn eithriad. Mae taliadau yn Senedd Cymru yn wahanol i Seneddau'r DU a'r Alban

mewn ffordd hollbwysig, yn yr ystyr eu bod yn cael eu talu pan fydd cyn-ddeiliad swydd yn colli ei sedd Senedd Cymru mewn etholiad. Yn seneddau'r DU a'r Alban, bydd deiliaid swyddi ychwanegol yn cael taliadau diswyddo pan fydd unigolyn yn peidio â dal y swydd ychwanegol honno.

# 2. Cyflwyniad

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) yn gwneud penderfyniadau annibynnol ynghylch cyflog a chymorth uniongyrchol i Aelodau o'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau ar sail tair egwyddor arweiniol:

1. dylai penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.
2. dylai penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.
3. dylai penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol, ac yn cynrychioli gwerth i'r trethdalwr.

Cyn pob tymor newydd yn y Senedd, mae'r Bwrdd yn gwneud Penderfyniad newydd ar Gyflogau a Lwfansau’r Aelodau. Mae'r Penderfyniad hwn yn pennu'r system o gymorth ariannol a thaliadau i'r Aelodau. Bob blwyddyn, mae adolygiad blynyddol yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau i unrhyw lwfansau, ac eithrio cyflogau'r Aelodau (oni bai bod amgylchiadau eithriadol).

## Adolygiadau thematig

Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn cynnal rhaglen o adolygiadau thematig, sy'n edrych yn fanylach ar elfennau o'r Penderfyniad. Mae'r gwaith hwn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun gwaith arfaethedig diwygio'r Senedd, a allai newid maint a chyfansoddiad y Seithfed Senedd yn sylweddol.

Mae pum adolygiad:

- Symleiddio
- Ffyrdd o Weithio
- Cymorth Staffio
- Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol
- Taliadau a Chymorth Personol i’r Aelodau

Mae'r Adolygiad o Daliadau Ariannol a Chymorth Personol yr Aelodau yn cwmpasu cyfran fawr o'r Penderfyniad gyda meysydd ffocws arwahanol, felly mae wedi'i rannu'n dair ffrwd waith benodol:

- Ffrwd waith un: Cyflog ac Amodau yr Aelodau
- Ffrwd waith dau: Gwariant ar Lety Preswyl a Theithio
- Ffrwd waith tri: Aelodau sy’n Gadael eu Swyddi

Bydd ffrwd waith tri yn ystyried a yw'r darpariaethau presennol ar gyfer Aelodau o’r Senedd sy'n gadael eu swyddi yn ddigonol, gan ystyried dulliau a fabwysiadwyd gan ddeddfwrfeydd eraill ledled y DU ac yn rhyngwladol, yn ogystal ag effaith bosibl diwygio'r Senedd. Bydd yr elfen hon hefyd yn ystyried syniadau o'r deunydd darllen presennol ar adael swydd wleidyddol, sydd, yn ogystal ag ystyried y cymorth ariannol y gallai fod ei angen ar seneddwyr, hefyd yn ystyried cymorth pontio ehangach.

Mae'r papur hwn yn canolbwyntio ar ffrwd waith tri, ac mae'n dwyn ynghyd dystiolaeth o’r deunydd darllen presennol ar adael swydd wleidyddol a dulliau a ddefnyddiwyd mewn seneddau eraill ar gyfer cymorth colli swydd. Mae'n canolbwyntio ar daliadau sy'n gysylltiedig â chyflog sy’n cael eu rhoi i seneddwyr pan fyddant yn gadael eu swydd. Mae seneddwyr yn neddfwrfeydd y DU hefyd yn gymwys i gael ystod o gostau dirwyn i ben sy'n ymwneud â'u swyddfeydd, staffio a llety, nad ydynt yn cael sylw manwl yn y papur hwn. Fodd bynnag, darperir crynodeb byr o'r trefniadau hyn yn atodiad dau er cyd-destun.

# 3. Gadael swydd wleidyddol: gwaith ymchwil presennol

Cyhoeddwyd tri adroddiad nodedig ar y pwnc o adael swydd wleidyddol dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r holl adroddiadau hyn yn amlygu'r heriau y gall seneddwyr eu hwynebu wrth adael swydd, naill ai drwy'r penderfyniad i roi'r gorau iddi neu golli mewn etholiad. Mae'r tri adroddiad oll yn nodi'r angen am gymorth pontio digonol, gan gwmpasu taliadau ariannol, yn ogystal â cymorth ehangach mewn perthynas ag iechyd meddwl, cyngor gyrfa a hyfforddiant.

Isod, nodir pwyntiau allweddol o bob un o'r tri adroddiad hyn.

### *Smoothing the cliff edge: supporting MPs at their point of departure* (2023)[2]

Cynhaliodd **Pwyllgor Gweinyddiaeth Tŷ'r Cyffredin** ymchwiliad i ystyried y cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Tŷ'r Cyffredin ac IPSA i ASau a'u staff yn ystod etholiadau cyffredinol. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 8 Chwefror 2023.

Cafodd yr ymchwiliad dystiolaeth gan ystod o arbenigwyr, gan gynnwys Jane Roberts, aelod o'r Bwrdd Taliadau. Fel gyda'r adroddiadau isod, gwnaed y cyswllt rhwng sicrhau bod ASau'n cael cymorth digonol wrth adael swyddi ac amrywiaeth o gynrychiolaeth.

Clywodd y Pwyllgor nad oedd profiadau dirwyn gweithdrefnau i ben yn San Steffan yn dda, gyda nifer o gyn-aelodau'n nodi eu bod yn teimlo nad oedd digon o amser i wneud popeth sydd ei angen wrth brosesu colli etholiad. Tynnwyd sylw hefyd at ganfyddiad o ddiffyg hyblygrwydd ac empathi gan IPSA fel pryder.

Commented [EE1]: Neu 'profiadau o weithdrefnau dirwyn i ben'? Ddim yn siŵr beth yw'r ystyr!

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o argymhellion allweddol mewn pum prif faes:

1. Gwella atebolrwydd a pharodrwydd Gwasanaeth Tŷ'r Cyffredin ac IPSA ar gyfer etholiadau yn y dyfodol.
2. Gwerthfawrogi a chydnabod cyfraniad ASau sy'n gadael i'n democratiaeth.

[2] Pwyllgor Gweinyddiaeth Tŷ'r Cyffredin (2023) *Smoothing the cliff edge: supporting MPs at their point of departure from elected office* **https://committees.parliament.uk/publications/33889/documents/185884/default/**

3. Sicrhau bod ASau sy'n gadael yn cael y cymorth pontio proffesiynol ar gyfer newid gyrfa, a nodwyd fel rhywbeth sydd ar waith mewn sectorau cyflogaeth eraill, i'w helpu drwy'r cyfnod pontio heriol.

4. Creu cynnig datblygiad proffesiynol sy'n cyfleu'r sgiliau sy'n hanfodol ar gyfer senedd yn yr unfed ganrif ar hugain.

5. Addasu'r taliadau colli swydd a chyfnod dirwyn i ben i adlewyrchu'n fwy cywir yr amser y mae'n ei gymryd i ASau gau eu swyddfeydd a sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi'n deg i'w cam gyrfa nesaf.

O ran y taliad colli swydd, roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn cael ei drin fel pecyn diswyddo, ac felly na ddylai fod yn amodol ar gwblhau tasgau dirwyn i ben. Nodwyd hefyd y dylai adolygiad o'r system yn y dyfodol gael ei lywio drwy feincnodi yn erbyn cynlluniau taliadau tebyg.

Roedd argymhellion penodol eraill yn cynnwys bod Gwasanaeth Tŷ'r Cyffredin yn gweithio gyda chontractwr gwasanaeth i ddatblygu a darparu rhaglen pontio gyrfa i gefnogi ASau sy'n gadael am hyd at 18 mis ar ôl gadael y swydd. Nid oes ymateb ffurfiol wedi'i gyhoeddi hyd yma, ond roedd erthygl newyddion o fis Rhagfyr 2023 yn rhoi manylion cynllun "trawsnewid gyrfa" arfaethedig sy'n cael ei ddatblygu mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor.[3] Dywedodd yr erthygl y byddai cymorth o dan y cynlluniau yn cael ei gynnig i'r rhai sy'n colli etholiad yn unig yn hytrach nag i'r rhai sy'n dewis rhoi'r gorau iddi.

## *Transitioning to Life after Parliament* (2021)[4]

Mae'r adroddiad hwn yn nodi profiadau cyn Aelodau Seneddol yn Victoria, Awstralia. Canfu'r astudiaeth, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2021, fod 71 y cant o gyn-ASau a adawodd y senedd o ganlyniad i golli etholiad wedi profi heriau cyflogaeth difrifol, o'i gymharu â dim ond 19 y cant a adawodd drwy ymddeoliad. Fodd bynnag, waeth beth ym mha ffordd y gwnaethant adael y senedd, nododd y rhan fwyaf o gyn-ASau fod ganddynt ymdeimlad o flinder corfforol a

[3] BBC "MPs defeated at election to get help finding a new career" Paul Seddon, 9 Rhagfyr 2023 https://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-67629470 [Fel ar 24.01.24]
[4] A. Nethery, P. Ferguson, Z. Nwokora a M. Clarke (2021) *Transitioning to Life after Parliament* **https://new.parliament.vic.gov.au/49e8f9/globalassets/images/news/library-papers/transitioninglifeafterparliament.pdf**

meddyliol, a'u bod wedi bod drwy gyfnod o addasu a barhaodd am fisoedd lawer, os nad blynyddoedd.

Cymerodd rhwng chwech a deunaw mis i 40 y cant o'r ymatebwyr i'r astudiaeth sicrhau gwaith cyflogedig ar ôl gadael y senedd. Aeth llawer ymlaen i gael gyrfaoedd portffolio yn cynnwys cyfuniad o rolau cyflogedig a di-dâl.

Mae'r adroddiad yn nodi ei bod yn egwyddor ddemocrataidd bwysig bod yr holl rwystrau diangen i ddilyn gyrfa mewn gwleidyddiaeth yn cael eu dileu, a hynny i helpu i sicrhau bod y senedd yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned y mae'n ei gwasanaethu. Mae hyn yn gysylltiedig â'r mater o golli cymorth swyddfa, gan nodi bod yr egwyddor hon dan fygythiad difrifol lle nad oes ymdrech gyfatebol i leihau, lle bo modd, yr anfanteision personol a phroffesiynol sy'n aml yn deillio o ddilyn gyrfa seneddol.

Commented [EE2]: Neu 'gymorth colli swydd'?

Gwneir deg argymhelliad i gryfhau'r cymorth i gyn-ASau, yn amrywio o hyfforddiant a chymorth wrth wasanaethu fel AS i baratoi ar gyfer bywyd ar ôl senedd, cwnsela, rhwydweithiau cymorth ffurfiol ar gyfer cyn-ASau, gwell perthynas rhwng senedd ac asiantaethau recriwtio gweithredol a chymorth ar gyfer hyfforddiant ar ôl gadael senedd.

### *Transitional Support for Former Members of Parliament: Benchmarks for 'Professional Parliaments'* (2023)[5]

Mae'r erthygl hon, a gyhoeddwyd ar 9 Medi 2023, yn tynnu ar adroddiad 2021 *Transitioning to Life after Parliament*. Mae'r papur yn defnyddio adroddiad 2021, a oedd yn canolbwyntio ar Senedd Victoria, Awstralia, i bennu nifer o feincnodau y dylid asesu seneddau proffesiynol yn eu herbyn mewn perthynas â chymorth i seneddwyr pan fyddant yn gadael y swydd. Yna mae'n ystyried nifer o seneddau sy'n bodloni meini prawf "senedd broffesiynol" i fesur perfformiad yn erbyn y meincnodau hyn.

Mae'r papur yn nodi: "...to attract high-quality and diverse candidates and reduce disincentives for sitting members to remain in parliament too long, the conditions of a parliamentary career and its aftermath must be reasonable."

[5] P. Ferguson, A. Nethery a Z. Nwokora (2023) *Transitional Support for Former Members of Parliament: Benchmarks for 'Professional Parliaments'* **https://academic.oup.com/pa/advance-article/doi/10.1093/pa/gsad017/7265872**

Mae'r papur yn nodi y gall yr heriau o ran dod o hyd i gyflogaeth ar ôl gadael swydd wleidyddol fod yn sylweddol, gan ddadlau nad yw'r drws tro, fel y'i gelwir, rhwng y llywodraeth a'r sectorau preifat neu gyhoeddus mor gyffredin ag yr honnir yn aml. Nodir hefyd fod y mater hwn yn arbennig o ddifrifol ar gyfer cyn-ddeddfwyr benywaidd sy'n tueddu i gael gyrfaoedd seneddol byrrach, yn fwy tebygol o adael y senedd yn anwirfoddol ac yn llai tebygol o sicrhau cyflogaeth ôl-seneddol sy'n cael ei dalu ar yr un lefel neu'n uwch na'u cyflog seneddol.

Awgrymir y pum meincnod a ganlyn:

1. Mae cyn-ASau sy'n gadael senedd cyn iddynt gyrraedd oedran pensiynadwy (p'un a yw'n cael ei dalu gan y wladwriaeth neu ffynhonnell arall) yn cael cyflog sylfaenol AS am 18 mis neu nes bod y cyn-AS yn sicrhau cyflogaeth, waeth beth fo'r amser a wasanaethir yn y senedd.

2. Pensiynau buddion wedi'u diffinio gyda thaliadau sy'n cyfateb i'r cyflog canolrifol neu'n fwy na'r cyflog canolrifol heb unrhyw hyd o ofynion gwasanaeth; neu os na fodlonir y gofyniad isafswm gwasanaeth, yr opsiwn i dynnu pob cyfraniad â llog yn ôl wrth adael senedd; neu gynllun blwydd-daliadau cronni sy'n gymesur â galwedigaethau â thâl tebyg.

3. Mae cwnsela pontio gyrfa, ariannol a bywyd ar gael i'r holl ASau sy'n gwasanaethu ac mae cwnsela diswyddo sydd ar gael i bob cyn-AS am o leiaf 18 mis ar ôl gadael senedd. Cynigir hyfforddiant i ASau presennol a chyn-ASau i ddatblygu a mynegi sgiliau trosglwyddadwy.

4. Darparu gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol parhaus i'r holl ASau presennol a chyn-ASau a gofal iechyd am ddim os nad yw'n cael ei ddarparu fel arall gan y wladwriaeth.

5. Cyfleoedd cymdeithasu a rhwydweithio – cymdeithas weithredol i gyn-aelodau.

Mae'r papur yn ystyried sut mae 22 senedd broffesiynol yn perfformio yn erbyn y meincnodau hyn, gan gynnwys Senedd Cymru. Daw'r awduron i'r casgliad, er bod y mwyafrif yn cynnig incwm ymddeol digonol, nad oes yr un ohonynt yn darparu digon o gymorth ariannol pontio i ASau sy'n gadael cyn oedran pensiynadwy, ac mae angen gwelliannau yn y rhan fwyaf o seneddau ynghylch cymorth iechyd meddwl a chwnsela.

Nodir y posibilrwydd y byddai cynyddu lefel y cymorth i gyn-ASau yn amhoblogaidd: "the provision of any additional resources to former parliamentarians is likely to be viewed with suspicion and hostility by some sections of the media, the public and many sitting MPs….offering

Commented [EE3]: Neu 'ofynion o ran hyd gwasanaeth'?

departing MPs adequate transitional support has the potential to enhance representative democracy by removing potential impediments to high-quality candidates from diverse socio-economic and cultural backgrounds from seeking political office, while also easing the passage out of parliament for those who are ready to leave."

# 4. Taliadau Colli Swydd: Deddfwrfeydd y DU

Mae taliadau colli swydd ar draws deddfwrfeydd y DU yn amrywio mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys sut mae'r modd y mae aelodau yn gadael eu swydd yn effeithio ar gymhwysedd i gael cymorth ariannol ac a yw rolau deiliad swydd ychwanegol yn rhan o'r trefniadau. Mae cymhariaeth ar olwg gyntaf o'r pedair deddfwrfa i'w gweld yn Atodiad Un.

## Senedd Cymru

Mae Aelodau sy'n Aelod o'r Senedd yn union cyn diddymu'r Senedd, ac sy'n ymgeiswyr i'w hailethol, ond heb eu hailethol, yn gymwys i gael **grant ymaddasu.**[6] Y swm taladwy yw cyflog mis calendr am bob blwyddyn o wasanaeth a gwblhawyd, yn amodol ar uchafswm o chwe mis o gyflog.

Gwneir darpariaeth hefyd ar gyfer grant ymddeol oherwydd salwch, sy'n cael ei gyfrifo ar yr un sail â'r grant ymaddasu. Mae unrhyw aelod y mae ei "iechyd yn ei rwystro rhag parhau i fod yn Aelod o'r Senedd" yn gymwys i gael y grant hwn.[7]

Os yw Aelod yn dewis peidio â sefyll i gael ei ailethol ac yn ymddiswyddo am unrhyw reswm heblaw salwch, nid yw'n gymwys i gael unrhyw fath o grant ymaddasu.

**Mae gan Aelodau sydd ar unrhyw adeg yn ystod eu cyfnod o wasanaethu wedi bod mewn swydd ychwanegol fel y nodir yn y Penderfyniad yr hawl i daliad ychwanegol** "yn cyfateb i swm y cyflog a dalwyd i ddeiliad y swydd ychwanegol honno yn y tri mis cyn iddo roi'r gorau i'r swydd ychwanegol".[8]

Mae Atodiad Tri yn rhoi manylion newidiadau a wnaed i'r darpariaethau ar gyfer Aelodau o'r Senedd a adawodd eu swydd cyn y Pedwerydd Cynulliad (2011 – 2016).

[6] Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (2023) *Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2023-24* **https://bwrddtaliadau.cymru/media/4yvdraxx/gen-ld15775-w.pdf**
[7] Ibid.
[8] Ibid.

## Senedd y DU

Mae cyn-ASau sydd *naill ai* yn rhoi'r gorau iddi cyn etholiad neu'n aflwyddiannus wrth gadw eu sedd yn gymwys i gael **taliad dirwyn i ben**, sy'n cyfateb i gyflog o bedwar mis.[9] Mae hyn yn y bôn yn darparu taliad cyflog yn ystod yr amser y mae cyn-Aelod yn ymgymryd â'i weithgareddau dirwyn i ben.

Mae cyn-ASau sy'n sefyll i gael eu hethol ac nad ydynt yn cael eu hailethol hefyd yn gymwys i gael **taliad colli swydd** os ydynt wedi bod yn y swydd am gyfnod parhaus o ddwy flynedd o leiaf. Mae'r taliad hwn yn cyfateb i ddyblu'r hawl presennol i'r taliad diswyddo statudol. Fel arfer, caiff ei dalu ar ddiwedd y cyfnod dirwyn i ben.[10]

Nid yw taliadau diswyddo ar gyfer rolau gweinidogol yn rhan o gylch gwaith IPSA. Deddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer **talu cyflogau a thaliadau diswyddo i Weinidogion Llywodraeth y DU a sawl deiliad swydd seneddol**. Y ddau ddarn mwyaf arwyddocaol o ddeddfwriaeth yw *Ministerial and other Salaries Act 1975* a *Ministerial and other pensions and salaries Act 1991*.

Darperir taliad diswyddo ar gyfer y rolau a ganlyn[11]:

- Prif Weinidog y DU
- Gweinidog y Cabinet
- Gweinidog Gwladol
- Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol
- Llefarydd Tŷ'r Cyffredin
- Tri Dirprwy Lefarydd yn Nhŷ'r Cyffredin
- Yr Arglwydd Lefarydd
- Yr Uwch Ddirprwy Lefarydd (Cadeirydd y Pwyllgorau yn ffurfiol) yn Nhŷ'r Arglwyddi

[9] IPSA (2023) *The Scheme of MPs' Staffing and Business Costs 2023-24* **https://assets.ctfassets.net/nc7h1cs4q6ic/1RGgHNyfnvqhVRXlFTZvDk/583a6973a70ff7707f6ea0686928a6fd/Sixteenth_Edition_of_the_Scheme_2023-24.pdf** [Fel ym mis Tachwedd 2023]
[10] Ibid.
[11] House of Commons Library *Briefing 9656 Ministerial Severance Pay* **https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9656/CBP-9656.pdf** [Fel ar 23.10.23]

- Prif Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgorau yn Nhŷ'r Arglwyddi

Yn gyffredinol, mae taliad diswyddo i Weinidogion yn cyfateb i chwarter cyflog blynyddol Gweinidogol, ac mae'n daladwy pan fydd Gweinidog yn rhoi'r gorau i'w swydd.[12] Gall Gweinidogion hepgor taliadau diswyddo, ac nid yw'r rhai sydd dros 65 oed neu sy'n cael eu hailbenodi fel gweinidog o fewn tair wythnos yn gymwys.[13]

## Senedd yr Alban

Amlinellir taliadau colli swydd yn Neddf Pensiynau Seneddol yr Alban 2009, sy'n nodi bod yn rhaid i Gorff Corfforedig Senedd yr Alban (SPCB) dalu grant (**grant ailsefydlu Aelodau Senedd yr Alban (MSP)**) i bob unigolyn sy'n MSP yn union cyn diddymu Senedd yr Alban, ond nad yw'n cael ei ailethol yn yr etholiad cyffredinol nesaf.[14] Mae grantiau ymaddasu MSP yn ganran o'u cyflog blynyddol; pa bynnag un sydd uchaf, naill ai 50 y cant neu ganran yn seiliedig ar flynyddoedd o wasanaeth, hyd at uchafswm o 12 (a fyddai'n 100 y cant o gyflog blynyddol).[15]

Mae rhagor o wybodaeth am grantiau ymaddasu, darpariaeth dirwyn i ben a chymorth arall ar gael yn y ddogfen 'Guidance for Members who are not standing at the 2021 Scottish Parliamentary election'[16].

Mae darpariaethau hefyd ar gyfer "**grant ymaddasu deiliaid swyddfa**", sy'n daladwy i unigolyn sy'n rhoi'r gorau i fod yn ddeiliad swydd bensiynadwy ac nad yw'n cael ei benodi'n ddeiliad swydd bensiynadwy yn ystod y 90 diwrnod canlynol.[17]

- Ar gyfer y Prif Weinidog a'r Llywydd, mae'r grant yn cyfateb i fis o gyflog ar gyfer pob blwyddyn gyfan o wasanaeth, yn amodol ar isafswm o 50 y cant ac uchafswm o 100 y cant.

---

[12] House of Commons Library *Briefing 9656 Ministerial Severance Pay*
[13] House of Commons Library *Briefing 9656 Ministerial Severance Pay*
[14] Scottish Parliamentary Pensions Act 2009 **https://www.legislation.gov.uk/asp/2009/1/schedule/2** [Fel ar 20.10.23]
[15] Ibid.
[16] Senedd yr Alban *Guidance for Members who are not standing at the 2021 Scottish Parliamentary election* https://archive2021.parliament.scot/SPCB/Scottish_Parliamentary_Elections_2021-Guidance_for_MSPs_not_standing.pdf [Fel ar 12.01.24]
[17] Scottish Parliamentary Pensions Act 2009 **https://www.legislation.gov.uk/asp/2009/1/schedule/2** [Fel ar 20.10.23].

- Mae deiliaid swyddi eraill yn cael swm sy'n hafal i 25 y cant o gyflog deiliad y swydd (heb gynnwys cyflog sylfaen MSP).

## Cynulliad Gogledd Iwerddon

Mae gan berson hawl i gael **lwfans ymaddasu** os oedd yn aelod yn union cyn diddymu'r Cynulliad ac nad yw'r person yn sefyll yn yr etholiad dilynol, neu os yw'r person yn sefyll ond nad yw'n cael ei ailethol.[18]

Mae'r lwfans ymaddasu yn gyflog un mis ar gyfer pob blwyddyn gyfan o wasanaeth, gyda therfyn uchaf o chwe mis o gyflog. Y cyflog a ddefnyddir ar gyfer y cyfrifiad hwn yw'r cyflog y mae gan aelod hawl iddo yn rhinwedd bod yn aelod yn unig, a gyfrifir ar ddyddiad diddymu'r Cynulliad.[19]

Cyn cael y taliad, rhaid i gyn-Aelodau wneud yr holl drefniadau sy'n angenrheidiol i ddirwyn eu materion i ben fel aelod, gan gynnwys rhoi hysbysiadau dileu swydd i staff a chyflwyno'r holl hawliadau treuliau i'r Comisiwn.[20]

[18] Cynulliad Gogledd Iwerddon *Assembly Members (Salaries and Expenses) Determination (Northern Ireland) 2016 as amended by the Assembly Members (Salaries and Expenses) (Amendment) Determination (Northern Ireland) 2020* http://www.niassembly.gov.uk/globalassets/documents/your_mlas/determinations/assembly-members-salaries-and-expenses-determination-northern-ireland-2016-as-amended.pdf
[19] Ibid.
[20] Ibid.

# 5. Taliadau Colli Swydd: Enghreifftiau rhyngwladol

Mae'n sicr bod cymharu â deddfwrfeydd eraill yn beth heriol. Mae seneddau yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol iawn, mewn gwahanol systemau etholiadol a gwahanol gyd-destunau gwleidyddol ac economaidd. Er bod y ffactorau hyn yn gwneud cymhariaeth uniongyrchol o lefel taliadau colli swydd yn anodd, nid yw'n atal cymhariaeth o sut mae gwahanol seneddau yn ymdrin â'r taliadau hyn. Felly, gall cymhariaeth â seneddau rhyngwladol helpu o ran ystyried natur a model y cymorth y gallai fod ei angen ar seneddwyr sy'n gadael.

Mae hefyd yn werth nodi'r derminoleg wahanol a ddefnyddir gan seneddau i ddisgrifio cymorth ariannol tebyg. Gan gyfeirio at daliadau a roddir naill ai wrth ymddiswyddo neu ar ôl colli sedd mewn etholiad, defnyddir y termau canlynol:

- Grant ymaddasu (resettlement grant)
- Taliad dirwyn i ben (winding up payment)
- Taliad colli swydd (loss of office payment)
- Taliad diswyddo (severance payment)
- Taliad pontio (transitional payment)
- Taliad terfynu (termination payment)
- Taliad gwahanu (separation payment)
- Taliad atodol (supplementary remuneration)
- Cymorth adleoli ariannol (financial redeployment support)

## Iwerddon

Y Gweinidog Cyllid sy'n gyfrifol am bennu cyfraddau taliadau terfynu, a hynny o dan Oireachtas (Allowances to Members) and Ministerial and Parliamentary Offices (Amendment) Act 1992.[21] Ceir amlinelliad o'r ffordd y caiff taliadau diswyddo eu darparu, gan gynnwys manylion am y fformiwlâu perthnasol, yn S.I. No. 356/1992 – Oireachtas (Termination Allowance) Regulations, 1992.[22] Mae rheoliadau dilynol wedi diwygio'r rhain i newid nifer o ffactorau, gan gynnwys ystyried rolau deiliaid swyddi ychwanegol wrth gyfrifo taliadau terfynu.

Mae'n heriol dod o hyd i'r canllawiau diweddaraf ar weithredu taliadau terfynu, felly mae'r isod yn deillio o'r ddeddfwriaeth fel y'i cyhoeddwyd ar wefan Llyfr Statud Iwerddon.[23]

O dan S.I. No. 356/ 1992[24], roedd gan aelodau Dáil Éireann (TDs) hawl i daliad terfynu os oeddent wedi gwasanaethu o leiaf 183 diwrnod o wasanaeth parhaus, yn TDs hyd at ddiddymiad Dáil Éireann a heb gael eu hailethol yn Aelodau yn yr etholiad cyffredinol nesaf.

Roedd dwy elfen i'r taliadau terfynu:

1. Cyfandaliad sy'n hafal i gyflog TD am 6 mis
2. Taliadau misol am hyd at 12 mis

Roedd taliadau misol ar gael i Aelodau â llai na 1095 diwrnod (3 blynedd) o wasanaeth parhaus. Nifer y taliadau fyddai'r lleiaf o 12 neu gyfnod yn seiliedig ar hyd y gwasanaeth. Am y 6 mis cyntaf, roedd gan yr Aelodau hawl i 75 y cant o gyflog misol TD; byddai unrhyw daliadau y tu hwnt i 6 mis yn 50 y cant o gyflog misol TD.

Fe wnaeth rheoliadau dilynol ymdrin â lwfansau deiliaid swyddi ychwanegol. Ym 1997, gwnaed darpariaeth ar gyfer taliadau terfynu i gyfrif am unrhyw lwfansau deiliaid swyddi seneddol. Roedd SI No. 211/1997[25] yn gosod model lle mae'r 'swm perthnasol' – h.y. y swm sylfaenol y

---

[21] Oireachtas (Allowances to Members) and Ministerial and Parliamentary Offices (Amendments) Act, 1992 **https://www.irishstatutebook.ie/eli/1992/act/3/section/5/enacted/en/html** [Accessed 24.10.23]
[22] S.I. No. 356/1992 – Oireachtas (Termination Allowance) Regulations, 1992**https://www.irishstatutebook.ie/eli/1992/si/356/made/en/print** [Accessed 24.10.23]
[23] Oireachtas (Allowances to Members) and Ministerial and Parliamentary Offices (Amendments) Act, 1992 **https://www.irishstatutebook.ie/eli/isbc/1992_3.html** [Fel ar 27.11.23]
[24] S.I. No. 356/1992 – Oireachtas (Termination Allowance) Regulations, 1992 **https://www.irishstatutebook.ie/eli/1992/si/356/made/en/print** [Accessed 27.11.23]
[25] S.I. No. 211/1997 – Oireachtas (Termination Allowance) (Amendment) Regulations 1997 **https://www.irishstatutebook.ie/eli/1997/si/211/made/en/print** [Fel ar 27.11.23]

mae holl elfennau'r taliad terfynu yn seiliedig arno – yn cael ei godi yn seiliedig ar y cyfnod o amser y gwasanaethodd Aelod mewn rôl ychwanegol.

Mae SI No. 386/ 2001[26] yn darparu ar gyfer cyfrifo at ddibenion cyfrifo taliadau terfynu y swm ychwanegol o gyflog y mae gan aelod hawl iddo drwy gyfeirio at flynyddoedd o wasanaeth lle mae taliad o swm o'r fath yn cael ei atal tra bod yr aelod yn ddeiliad swydd y cyfeirir ati yn rhan 2 o Ddeddf Swyddi Gweinidogol a Seneddol 1938.

## Victoria, Awstralia

Gwneir darpariaeth ar gyfer taliadau gwahanu ar gyfer Aelodau Senedd Victoria yn Parliamentary Salaries, Allowances and Superannuation Act 1968.[27]

Mae taliadau ar gael i'r rhai sy'n colli eu sedd mewn etholiad a'r rhai nad ydynt yn ceisio cael eu hailethol am unrhyw reswm heblaw am ymddygiad llygredig neu dorri rheolau yn sylweddol a bwriadol.[28]

Mae taliadau ynghlwm wrth hyd gwasanaeth. Mae gan y rhai sy'n gwasanaethu hyd at ac yn cynnwys un tymor hawl i dri mis o'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy ar y diwrnod y gwnaethant roi'r gorau i fod yn aelod. I'r rhai sy'n gwasanaethu dau dymor neu fwy, mae hyn yn cynyddu i chwe mis o'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy iddynt ar y diwrnod y gwnaethant roi'r gorau i fod yn aelod. I'r rhai sy'n gwasanaethu rhwng un a dau dymor, caiff swm pro rata ei gyfrifo.[29]

Nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn mynd i'r afael â'r mater o ddeiliaid swyddi ychwanegol, ac nid yw'n glir o'r ffynonellau sydd ar gael a yw Llywodraeth Victoria yn gwneud darpariaethau ar gyfer taliadau diswyddo neu golli swydd ar gyfer swyddi gweinidogol.

## Norwy

Mae gan ASau sy'n rhoi'r gorau i ddal eu seddi yn Storting Norwy hawl i ddau daliad[30]:

[26] S.I. No. 386/ 2001 – Oireachtas (Termination Allowance) (Amendment) Regulations, 2001 **https://www.irishstatutebook.ie/eli/2001/si/386/made/en/print** [Fel ar 27.11.23]
[27] Parliamentary Salaries, Allowances and Superannuation Act 1968 **https://www.legislation.vic.gov.au/in-force/acts/parliamentary-salaries-allowances-and-superannuation-act-1968/120** [Fel ar 27.11.23]
[28] Ibid.
[29] Ibid.
[30] "MPs pay, allowances and other arrangements" **https://www.stortinget.no/en/In-English/Members-of-the-Storting/Financial-support/** [Fel ym mis Hydref 2023]

1. Taliad diswyddo
2. Lwfans terfynu

Gall ASau nad ydynt yn parhau ar ôl etholiad seneddol wneud cais am dâl diswyddo sy'n hafal i dâl sefydlog AS am hyd at dri mis. I fod yn gymwys, rhaid i gyn-Aelod gyflwyno ffurflen hunan-ddatganiad gyda manylion am eu sefyllfa incwm. Caiff lefel y tâl diswyddo ei ostwng os bydd ffynonellau incwm eraill yn fwy na NOK 5,000 yn ystod y cyfnod hwn.

Mae lwfans terfynu ar gael i gyn-ASau sy'n mynd ati i geisio gwaith neu sy'n dilyn hyfforddiant neu addysg hanfodol a pherthnasol cysylltiedig â gwaith am hyd at flwyddyn ar ôl diwedd cyfnod y tâl diswyddo. Mae'r cyflog hwn yn cyfrif am 66 y cant o dâl sefydlog ASau, a chaiff ei leihau'n unol ag unrhyw incwm arall a enillir.

## Denmarc

Deddf Etholiadau Seneddol Denmarc sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer talu Aelodau o'r Folketing.[31]

Os yw aelod cyffredin yn gadael y Folketing oherwydd etholiad cyffredinol neu salwch, mae'r aelod yn cael tâl atodol, sy'n cyfateb i'r tâl sylfaenol, a hynny am 6-24 mis ar ôl ymddiswyddo.[32] Mae'r cyfnod o hawl yn gysylltiedig â hyd gwasanaeth y cyn-aelod – gyda nifer y misoedd yn cyfateb i hanner y misoedd llawn o wasanaeth parhaus.[33]

Ni fydd unrhyw incwm cyflog o dan DKK 157,564 yn y flwyddyn gyntaf yn cael ei wrthbwyso, a bydd unrhyw incwm cyflog a phensiwn arall yn cael ei wrthbwyso o ddiwrnod cyntaf yr hawl ag unrhyw daliad atodol.[34]

---

31 "Telerau ac amodau Aelodau Seneddol" **https://www.ft.dk/da/medlemmer/medlemmernes-vilkaar#C79346F8A16E45659511D356FE803141** [Fel ym mis Hydref 2023] DS: casglwyd y wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfieithiad Google o'r cynnwys Daneg gwreiddiol
32 Ibid.
33 Deddf Etholiadau Folketing (Seneddol) **https://elections.im.dk/parliament-elections/folketing-parliamentary-elections-act** [Fel ar 27.11.23]
34 "Telerau ac amodau Aelodau Seneddol" **https://www.ft.dk/da/medlemmer/medlemmernes-vilkaar#C79346F8A16E45659511D356FE803141** [Fel ym mis Hydref 2023] DS: casglwyd y wybodaeth hon yn seiliedig ar gyfieithiad Google o'r cynnwys Daneg gwreiddiol

Gall cyn-aelodau hefyd gael cymorth ar gyfer addysg barhaus, hyd at uchafswm o DKK 32,055 y flwyddyn, a hynny am hyd at chwe blynedd wedi iddynt ymddiswyddo o'r senedd.[35]

## Sweden[36]

Cynigir cymorth ariannol i'r rhai sy'n peidio â bod yn aelod o'r Riksdag ac nad ydynt yn 66 oed neu'n hŷn. Y bwriad y tu ôl i hyn yw creu sicrwydd ariannol yn ystod y cyfnod pontio ar ôl gadael y swydd.

Cyflwynwyd system newydd o gymorth adleoli ariannol yn 2014 i gymryd lle'r system incwm gwarantedig flaenorol. Yn ogystal â chymorth ariannol, gall cyn-aelodau hefyd gael mynediad at gyngor gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus.

Bwrdd Taliadau y Riksdag sy'n gwneud penderfyniadau am gymorth adleoli ariannol.

I fod yn gymwys, rhaid bod Aelodau wedi gwasanaethu am gyfnod parhaus o flwyddyn o leiaf. Mae pa mor hir y gall cyn-aelodau gael cymorth yn gysylltiedig â'u cyfnod yn y swydd, yn amodol ar uchafswm o ddwy flynedd. Mae aelodau'n cael 85 y cant o'u cyflog sylfaenol, sy'n cael ei leihau'n unol ag unrhyw incwm arall a gânt ac sy'n bensiynadwy.

Mae modd ymestyn y cyfnod hwn o dan amodau penodol, hyd at uchafswm o 45 y cant o'u cyflog sylfaenol. Nid yw hyn yn bensiynadwy.

Er mwyn cael cymorth adleoli ariannol, rhaid cyflwyno cais i Fwrdd Pensiynau Gweithwyr y Llywodraeth Genedlaethol, gyda datganiad incwm sy'n cynnwys gwybodaeth ragarweiniol am unrhyw ffynonellau incwm eraill.

## Yr Almaen

Caiff manylion y taliadau pontio eu hamlinellu yn Neddf Aelodau'r Bundestag, a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Hydref 2021.[37]

---

[35] Ibid.
[36] 'Cyflog aelodau' **https://www.riksdagen.se/en/members-and-parties/the-members-pay-and-conditions/members-pay/** [Fel ar 10.12.23]
[37] Deddf Aelodau'r Bundestag Deddf Aelodau Senedd Ewrop"
**https://www.bundestag.de/resource/blob/189732/12f31382e6855396ce43b5bb7b9f0062/memlaw-data.pdf** [Fel ar 27.11.23]

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer taliadau pontio, mae'n rhaid bod Aelodau wedi gwasanaethu am flwyddyn o leiaf. Mae aelodau'n cael eu cyflog misol, am un mis o bob blwyddyn aelodaeth, wedi'i gapio ar ddeunaw mis.

O'r ail fis ar ôl gadael y swydd, bydd yr holl incwm a buddion pensiwn yn cael eu gwrthbwyso yn erbyn y taliadau pontio.

Gall aelodau ofyn am eu taliadau fel un swm, yn fisol neu ar hanner y swm penodedig am ddwbl y cyfnod penodedig.

Mae Deddf Aelodau'r Bundestag yn cyfeirio at ddau ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth a'r taliadau pontio y maent yn eu darparu ar eu cyfer – y Ddeddf Gweinidogion Ffederal a'r Ddeddf Ysgrifenyddion Gwladol Seneddol. Nid yw'n ymddangos bod fersiynau Saesneg o'r deddfau hyn ar gael, ond mae'r cyfeirnod yn awgrymu bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer taliadau pontio ar gyfer rolau gweinidogol, ond o'r ail fis caiff y rhain eu hatal os yw rhywun yn cael cyflog sylfaenol Aelod (h.y. yn gwasanaethu fel Aelod cyfredol o'r Bundestag).

## Awstria[38]

Caiff manylion taliadau Aelodau'r Cyngor Cenedlaethol eu nodi yn y Ddeddf Taliadau Ffederal. Ar ôl gadael y swydd, mae Aelodau yn gymwys i barhau i gael taliad ar ôl terfynu eu gwaith. Mae gan y rhai nad ydynt yn dychwelyd i gyflogaeth arall ar unwaith yr hawl i daliad parhaus o 75 y cant o'u taliadau misol. Mae'n cael ei leihau'n unol ag unrhyw incwm trethadwy arall. Mae taliadau'n parhau am dri mis, gan gynyddu i chwe mis i'r rhai y mae'r Ddeddf Anghydnawsedd a Thryloywder yn gofyn iddynt beidio â chymryd swydd arall.

Mae unigolion yn gymwys i gael y taliadau parhaus hyn oni bai eu bod yn ymgymryd â rôl arall y mae'r Ddeddf yn rhoi tâl amdani, gweithgaredd cyflogedig arall neu'n cymryd pensiwn.

## Canada – Tŷ'r Cyffredin

Mae Bwrdd yr Economi Fewnol, sef y corff sy'n llywodraethu Tŷ'r Cyffredin Canada, yn gyfrifol am benderfyniadau ar faterion ariannol a gweinyddol. Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am bennu is-ddeddfau, polisïau a chanllawiau sy'n ymwneud â gwariant ac adnoddau a ddarperir i'r Aelodau er mwyn cyflawni eu swyddogaethau seneddol. Mae Is-ddeddf yr Aelodau yn rheoleiddio'r

[38] Deddf Taliadau Ffederal **https://www.parlament.gv.at/en/explore/making-laws/legal-bases/page/index.html** [Fel ar 28.11.23]

defnydd o adnoddau ariannol ac yn cynnwys darpariaethau ar gyfer cyn-Aelodau a chyn-Swyddogion Tŷ.[39]

Gall cyn-Aelodau fanteisio ar wasanaethau pontio, sy'n golygu unrhyw wasanaeth sy'n cynorthwyo cyn-Aelodau i newid gyrfa neu ymddeol, gan gynnwys unrhyw gynllunio ariannol, ymddeoliad, neu gwnsela ailgyflogaeth, lleoliadau allanol, addysg neu ailhyfforddi a ddarperir yn ystod y cyfnod pontio.[40]

Mae Is-ddeddf yr Aelodau yn diffinio'r cyfnod pontio fel a ganlyn[41]:

- Aelodau na chânt eu hailethol – 12 mis yn dilyn yr etholiad cyffredinol neu ddyddiad yr ardystiad yn achos ailgyfrif barnwrol
- Aelodau nad ydynt yn ceisio cael eu hailethol – 12 mis ar ôl y diddymiad

Yn ogystal â'r gwasanaethau pontio hyn, mae cyn-Aelodau hefyd yn gymwys i gael nifer o daliadau ariannol.[42].

- Lwfans tynnu'n ôl – ar ôl peidio â bod yn Aelod, bydd y rhai sydd wedi cyfrannu at y cyfrifon ymddeol am lai na chwe blynedd yn cael lwfans tynnu'n ôl ar unwaith. Mae hwn yn gyfandaliad sy'n hafal i gyfanswm y cyfraniadau a dalwyd gan yr Aelod, ynghyd â llog, hyd at ddyddiad yr ymddiswyddiad
- Lwfans diswyddo – yn dibynnu ar hyd gwasanaeth, oedran ac amgylchiadau.

Mae manylion y lwfans diswyddo i'w gweld yn Neddf Senedd Canada.[43] Mae aelodau na chânt eu hailethol yn dilyn etholiad cyffredinol yn cael cyfandaliad sy'n hafal i 50 y cant o gyfanswm eu lwfans sesiynol[44] ac unrhyw gyflog neu lwfans o ganlyniad i swyddi ychwanegol a ddelir (gan gwmpasu rolau seneddol megis Llywydd, dirprwy lywydd a chadeiryddion pwyllgor,

[39] Board of Internal Economy *Members By-Law* **https://www.ourcommons.ca/DocumentViewer/en/boie/by-law/10000** [Accessed 28.11.23]
[40] Ibid.
[41] Ibid.
[42] Tŷ'r Cyffredin Canada *Members' Allowances and Services* **https://www.ourcommons.ca/Content/MAS/mas-e.pdf** [Fel ar 28.11.23]
[43] Deddf Senedd Canada **https://laws-lois.justice.gc.ca/eng/acts/p-1/page-7.html#docCont** [Fel ar 27.11.23]
[44] Mae lwfans sesiwn yn daladwy mewn rhandaliadau cyfartal ar ddiwrnod olaf pob mis hyd nes y bydd yr Aelod yn peidio â bod yn Aelod; yn y bôn, dyma gyflog sylfaenol yr Aelod

ysgrifenyddion seneddol, arweinwyr gwrthbleidiau, chwipiaid ac arweinwyr tŷ a rolau gweinidogol).[45]

[45] Ibid.

# 6. Casgliad

Ar draws y seneddau a adolygwyd ar gyfer y papur hwn, ceir llawer o wahanol ddulliau o roi taliadau colli swydd a chymorth pontio.

Mae'r holl enghreifftiau rhyngwladol yn y papur hwn yn rhoi rhyw fath o gymorth ariannol i gyn-aelodau i’w helpu i symud i fywyd ar ôl y senedd a/neu i'w galluogi i gwblhau unrhyw drefniadau dirwyn i ben. Mae consensws ar draws yr enghreifftiau hyn bod rhyw fath o gymorth ariannol yn briodol i aelodau pan fyddant yn gadael eu swydd, ac mae'r rhan fwyaf o seneddau yn fframio hyn fel cefnogi cyn-aelodau wrth iddynt symud i fywyd ar ôl y senedd.

Fodd bynnag, mae union fodel y cymorth hwn yn amrywio'n sylweddol. Mae rhai yn ffafrio un cyfandaliad, ac mae eraill yn ffafrio taliadau misol am gyfnod penodol. Mae rhai yn cysylltu cymhwystra a gwerth unrhyw daliad â hyd gwasanaeth. Mae rhai yn cyfrif am gyflogau deiliaid swyddi ychwanegol, ond nid yw eraill yn gwneud hynny. Mae rhai yn cyfyngu taliadau i'r rhai sy'n sefyll etholiad ac yn colli eu sedd, tra bod eraill yn rhoi taliad i bawb sy'n gadael swydd seneddol.

# 7. Atodiad un: Cymhariaeth o ddeddfwrfeydd y DU

Mae'r tabl isod yn rhoi cipolwg o daliadau colli swydd (taliadau sy'n gysylltiedig â chyflog yn unig) y mae cyn-aelodau yn gymwys i'w cael ym mhob un o ddeddfwrfeydd y DU. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â phennod tri uchod i ddeall yn llawn sut mae'r gwahanol gynlluniau'n gweithredu. Dylid bod yn ofalus hefyd gyda'r ffigurau a restrir ar gyfer Gogledd Iwerddon, gan fod y rhain yn dod o’r *Assembly Members (Salaries and Expenses) Determination* o 2020, gan fod Penderfyniadau eithriadol ar waith tra nad oedd Gweithrediaeth yn ei lle. Bydd y ffigurau'n cael eu diweddaru unwaith y cyhoeddir Penderfyniad newydd yn dilyn adfer y trefniadau rhannu grym.

| | Senedd Cymru | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Cynulliad Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| **Taliad a roddir i Aelodau sy'n gadael** | | | | |
| Enw'r taliad | **Grant ymaddasu** | **Taliad dirwyn i ben a thaliad colli swydd** | **Grant ymaddasu** | **Lwfans ymaddasu** |
| Gwerth taliad wrth adael y senedd | Cyflog un mis calendr ar gyfer pob blwyddyn gyfan o wasanaeth.<br><br>Terfyn o gyflog 6 mis | **Taliad dirwyn i ben** cyfwerth i gyflog 4 mis.<br>Ar gael i unrhyw Aelod sy'n ymddiswyddo neu nad yw'n cael ei ailethol.<br>**Taliad colli swydd** cyfwerth i ddwbwl taliad diswyddo statudol cyfredol. | Pa un bynnag sydd uchaf: 50 y cant o gyflog blynyddol MSP, neu ganran yn seiliedig ar hyd gwasanaeth wedi'i gapio ar 12 mis (h.y. 100 y cant o'r cyflog blynyddol). | Yn hafal i gyflog un mis am bob blwyddyn gyfan o wasanaeth, wedi'i gapio ar gyflog o 6 mis. |

| | Senedd Cymru | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Cynulliad Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| Meini prawf cymhwystra | Aelodau sy'n sefyll ac yn aflwyddiannus.<br>Aelod sy'n sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad ac nad yw'n cael ei ailethol. | **Taliad dirwyn i ben:** Pob Aelod sy'n gadael y swydd<br><br>**Colli swydd:** Aelodau sy'n sefyll ac yn aflwyddiannus.<br>Aelod sy'n sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad ac nad yw'n cael ei ailethol.<br>Rhaid bod yr Aelod wedi gwasanaethu dwy flynedd barhaus i fod yn gymwys. | Pob Aelod.<br><br>Yn daladwy i'r rhai sy'n MSP yn union cyn diddymu Senedd yr Alban ond nad ydynt yn cael eu hailethol yn yr etholiad cyffredinol nesaf. | Pob Aelod.<br><br>Lwfans ymaddasu sy'n daladwy i'r rhai sy'n aelod yn union cyn diddymu'r Cynulliad ac nad yw'n sefyll yn yr etholiad neu nad yw'n cael ei ailethol. |
| **Taliad 'colli swydd' i ddeiliaid swyddi ychwanegol** | | | | |
| Gwerth taliad | Cyfateb i swm y cyflog a dalwyd i ddeiliad y swydd yn y tri mis cyn iddo roi'r gorau i'r swydd ychwanegol. Telir adeg etholiad (os | Taliadau diswyddo i Weinidogion a'r Llywydd (heb eu gweinyddu gan IPSA) sy'n gyfwerth i chwarter y cyflog blynyddol (3 mis) | Prif Weinidog a'r Llywydd – cyflog un mis am bob blwyddyn gyfan o gap a choler gwasanaeth o 100 y cant a 50 y cant. | Dim. |

| | Senedd Cymru | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Cynulliad Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| | yw'n sefyll ac yn aflwyddiannus) ac nid yw gwerth yn cael ei uwchraddio (yn unol ag unrhyw godiadau chwyddiant) yn y cyfamser. | | Deiliaid swyddi eraill – 25% o gyflog deiliaid y swydd (ac eithrio cyflog sylfaen MSP) | |
| Ar gael i bob deiliad swydd uwch cymwys? | Dim ond y rhai sy'n sefyll mewn etholiad ac yn aflwyddiannus. | Oes | Oes | Amherthnasol |
| Pryd gaiff ei dalu? | Telir pan fydd taliad grant ymddasu yn gymwys oherwydd colli etholiad. | Telir pan na fydd unigolyn yn rhoi’r gorau i swydd ychwanegol. | Telir i unigolyn sy'n rhoi'r gorau i fod yn ddeiliad swydd uwch ac nad yw'n cael ei benodi i swydd uwch o fewn 90 diwrnod. | Dim. |

# 8. Atodiad dau: Darpariaethau costau dirwyn i ben yn neddfwrfeydd y DU

## Senedd Cymru

Mae'r **lwfans dirwyn i ben** ar gael i berson sydd, "am ba reswm bynnag, wedi peidio â bod yn Aelod" i dalu cost a ysgwyddwyd "yn gyfan gwbl, yn unig ac o reidrwydd wrth gwblhau unrhyw waith a oedd ar y gweill pan beidiodd y person hwnnw â bod yn Aelod".[46]

Mae Aelod yn peidio â bod yn Aelod ar y dyddiad y digwydd unrhyw un o'r canlynol:

- bod yr Aelod yn ymddiswyddo
- bod yr Aelod yn marw
- bod y Senedd yn cael ei diddymu, os nad yw'r Aelod yn ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd newydd
- y diwrnod pleidleisio, os yw'r Aelod yn ymgeisydd i'w ethol i'r Senedd newydd ond nad yw'n cael ei ethol

Caiff swm y gellir ei hawlio ei bennu mewn cynllun dirwyn i ben ysgrifenedig y cytunwyd arno gyda'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Fe'i cyfrifir drwy gyfeirio at y cyfnod y cytunwyd arno ar gyfer dirwyn i ben a'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, Gwariant ar Lety Preswyl a Lwfans Gwariant Staffio. Tri mis yw'r cyfnod mwyaf ar gyfer cynllun dirwyn i ben.

## Senedd y DU

O dan Gynllun Costau Staffio a Busnes ASau yr IPSA, gall cyn-ASau hawlio **costau dirwyn i ben**.[47] Mae hyn er mwyn cefnogi ASau gyda chostau cwblhau eu swyddogaethau seneddol,

[46] Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (2023) *Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau 2023-24* **https://bwrddtaliadau.cymru/media/4yvdraxx/gen-ld15775-w.pdf**
[47]IPSA (2023) *The Scheme of MPs' Staffing and Business Costs 2023-24* **https://assets.ctfassets.net/nc7h1cs4q6ic/1RGgHNyfnvqhVRXlFTZvDk/583a6973a70ff7707f6ea0686928a6fd/Sixteenth_Edition_of_the_Scheme_2023-24.pdf** [Fel ym mis Tachwedd 2023]

gan gynnwys cau swyddfeydd etholaethol. Mae modd i'r rhai sy'n ceisio cael eu hailethol neu'r rhai sy'n dewis rhoi'r gorau iddi hawlio costau am uchafswm o ddau fis ar ôl gadael Senedd y DU. O 2023 ymlaen, bydd y cyfnod hwn yn cynyddu i bedwar mis.[48]

## Senedd yr Alban

Mae gan Aelodau Seneddol hawl i **ddarpariaeth dirwyn i ben**, sy'n talu treuliau y gall Aelod eu talu ar ôl diddymiad o ganlyniad i gwblhau busnes seneddol.[49] Mae dwy ran i'r ddarpariaeth: darpariaeth wedi'i chapio o hyd at draean o'r ddarpariaeth costau swyddfa i dalu costau llety, swyddfa a chysylltiedig; a darpariaeth ar wahân i dalu costau cyflog staff yn ystod y cyfnod dirwyn i ben a chostau dileu swyddi staff.

## Cynulliad Gogledd Iwerddon

Mae gan gyn-aelodau hawl i gael **costau dirwyn i ben**. Eir i dreuliau dirwyn i ben mewn perthynas â pherson sy'n peidio â bod yn aelod, yn ystod y tri mis o'r dyddiad y peidiodd y person â bod yn aelod ac yr eir iddynt yn gyfan gwbl mewn cysylltiad â'r person yn peidio â bod yn aelod.[50] £4,500 yw'r uchafswm y gellir ei hawlio.

---

[48] Ibid.
[49] Senedd yr Alban *Guidance for Members who are not standing at the 2021 Scottish Parliamentary election* https://archive2021.parliament.scot/SPCB/Scottish_Parliamentary_Elections_2021-Guidance_for_MSPs_not_standing.pdf [Fel ar 12.01.24]
[50] Independent Financial Review Panel (2016) *Assembly Members (Salaries and Expenses) Determination (Northern Ireland) 2016* **https://ifrp.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Assembly-Members-Salaries-and-Expenses-Determination-Northern-Ireland-2016.pdf**

## Cipolwg ar gostau dirwyn i ben cymharol

| | Senedd Cymru | Senedd y DU | Senedd yr Alban | Cynulliad Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| Costau dirwyn i ben | **Lwfans dirwyn i ben** am uchafswm o 3 mis ar ôl peidio â bod yn Aelod. Fe'i cyfrifir drwy gyfeirio at y cyfnod y cytunwyd arno a'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr, Gwariant ar Lety Preswyl a Lwfans Gwariant Staffio. | **Costau dirwyn i ben** y gellir eu hawlio am uchafswm o bedwar mis ar ôl gadael y senedd. | **Darpariaeth dirwyn i ben** sy'n cynnwys hyd at draean o’r ddarpariaeth costau swyddfa a darpariaeth ar wahân i dalu costau cyflogau staff. | Mae modd hawlio uchafswm o £4,500 yn ystod y tri mis ar ôl y dyddiad y mae person yn peidio â bod yn aelod er mwyn **talu costau dirwyn i ben.** |

# 9. Atodiad tri: Esblygiad Grant Ymaddasu'r Senedd

Gwnaed newidiadau i'r darpariaethau ar gyfer Aelodau o'r Senedd a adawodd eu swydd cyn y Pedwerydd Cynulliad (2011 – 2016).

Yn 2011, cyhoeddodd Bwrdd Taliadau newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Addas i'r diben*, a oedd yn amlinellu eu penderfyniadau ar dâl a lwfansau i'r Aelodau. Roedd hyn yn cynnwys penderfyniadau am newidiadau i'r grant ymaddasu yr oedd cyn-Aelodau'n gymwys i'w gael ar ôl gadael eu swydd.[51]

- O'r Pedwerydd Cynulliad ymlaen, ni fyddai'r Aelodau ond yn gymwys i hawlio grant ymaddasu os oeddent wedi colli etholiad.
- Yn unol ag argymhellion gan y Panel Adolygu Annibynnol, datblygwyd dull ar gyfer cyfrifo'r grant yn seiliedig ar hyd gwasanaeth yn unig (ac nid oedran bellach). Byddai hyn yn cael ei gyfrifo ar sail un mis ar gyfer pob blwyddyn gyfan o wasanaeth, wedi'i gapio ar gyflog chwe mis.
- Byddai trefniadau pontio yn parhau ar waith ar gyfer Aelodau â gwasanaeth parhaus ers y Trydydd Cynulliad.
- Byddai grant ymddeol oherwydd salwch ar gael i aelodau cymwys, wedi'i gyfrifo yn yr un modd â'r grant ymaddasu.

Cyn y Pedwerydd Cynulliad, roedd y grant ymaddasu'n wahanol mewn nifer o ffyrdd allweddol[52]:

- Roedd yr aelodau yn gymwys p'un a oeddent yn sefyll mewn etholiad ac yn colli neu'n dewis rhoi'r gorau iddi.
- Roedd gwerth y grant yn seiliedig ar oedran Aelod adeg yr etholiad a hyd eu gwasanaeth, ac yn cael ei fynegi fel canran o'u cyflog (gweler y tabl isod)

[51] Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011) *Addas i'r Diben*
[52] *Penderfyniad (Rhif 2) Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau a Swyddogion y Cynulliad) Cyflogau a Lwfansau 2009* **Cynulliad Cenedlaethol Cymru (senedd.cymru)**

- Roedd darpariaethau ar gyfer deiliaid swyddi ychwanegol fel ag y maent nawr – taliad sy'n hafal i swm y cyflog sy'n daladwy i ddeiliad y swydd yn y tri mis cyn iddynt roi'r gorau i'r swydd honno; a delir ar yr un pryd â'r prif grant ymaddasu.

**PERCENTAGES OF YEARLY SALARY**

number of years of service (completed years)

| Age | under 10 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 or over |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Under 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 |
| 50 | 50 | 50 | 52 | 54 | 56 | 58 | 60 |
| 51 | 50 | 52 | 55 | 58 | 62 | 65 | 68 |
| 52 | 50 | 54 | 58 | 63 | 67 | 72 | 76 |
| 53 | 50 | 56 | 62 | 67 | 73 | 78 | 84 |
| 54 | 50 | 58 | 65 | 72 | 78 | 85 | 92 |
| 55 to 64 | 50 | 60 | 68 | 76 | 84 | 92 | 100 |
| 65 | 50 | 58 | 65 | 72 | 78 | 85 | 92 |
| 66 | 50 | 56 | 62 | 67 | 73 | 78 | 84 |
| 67 | 50 | 54 | 58 | 63 | 67 | 72 | 76 |